Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus

## Canllaw i beth mae'r gyfraith yn ei ddweud



2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Canllawiau ar daliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus: Deall y rheoliadau.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 36**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**E-bost:** TaliadauUniongyrchol@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddarllen gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys


**Beth ydy'r canllaw yma** .......... 4

**Am daliadau uniongyrchol** .......... 6

**Galluedd** .......... 15

**Gwybodaeth, cyngor a chymorth** .......... 19

**Cynllunio gofal** .......... 20

**Rheoli'r arian** .......... 24

**Cadw pobl yn ddiogel** .......... 30

**Stopio neu newid taliadau** .......... 32

**Edrych ar, ac adolygu taliadau uniongyrchol** .......... 34

**Cwynion** .......... 35

**Geiriau Anodd** .......... 36

# Beth ydy’r canllaw yma

Ni ydy Llywodraeth Cymru.




Mae yna reolau newydd sy’n rhan o’r gyfraith o’r enw **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru 2025**.




Mae’r canllaw yma yn esbonio’r rheolau newydd yma. Maen nhw’n berthnasol i chi os ydych chi’n cael **Gofal Iechyd Parhaus**.



Mae Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn ofal parhaus sydd yn cael ei drefnu a’I dalu amdano gan y GIG. **Mae’n cael ei alw yn GIP yn fyr**.




Mae'r rheolau newydd yn dweud bod pobl sy'n cael GIP yn gallu gofyn am daliad uniongyrchol i dalu am eu gofal.




Mae'r canllaw yma yn esbonio:

- Sut mae taliadau uniongyrchol yn gweithio.
- Pwy sydd yn gallu eu cael.
- Ar gyfer beth mae pobl yn gallu eu defnyddio a dim yn gallu eu defnyddio.
- Pa gefnogaeth mae pobl yn gallu ei gael.
- Beth sy'n digwydd os bydd pethau'n newid.




Fe fyddwn ni'n diweddaru'r canllaw yma yn rheolaidd. Mae hyn yn meddwl bod yr wybodaeth yn gallu newid.



Taliadau uniongyrchol ydy pan rydych chi'n cael arian i drefnu eich gofal eich hun. Mae hyn yn lle bod y GIG yn trefnu gwasanaethau i chi.



Mae taliadau uniongyrchol wedi cael eu defnyddio mewn gofal cymdeithasol ers blynyddoedd lawer. Maen nhw'n gadael i bobl:

- Dewis eu cefnogaeth eu hunain.
- Cael mwy o reolaeth dros eu gofal.
- Cael mwy o annibyniaeth.



Mae 7 Bwrdd Iechyd Lleol y GIG yng Nghymru. Maen nhw'n penderfynu os ydych chi'n gallu cael taliadau uniongyrchol i ateb eich anghenion iechyd.




Mae cynllun gofal yn esbonio:

- Pa gefnogaeth mae person ei angen.
- Ar gyfer beth mae'n rhaid defnyddio'r arian taliadau uniongyrchol.




Mae taliadau uniongyrchol yn gallu talu am ofal a chymorth parhaus neu untro os ydy hyn yn cael ei gytuno yn eich cynllun gofal.

## Ar gyfer beth mae taliadau uniongyrchol yn gallu cael eu defnyddio




Mae taliadau uniongyrchol yn gallu cael eu defnyddio i dalu am gymorth sydd yn eich cynllun gofal. Rhaid i'r gefnogaeth yma ateb eich anghenion iechyd a llesiant.



Mae pobl angen gwybodaeth glir i wneud penderfyniadau da am ddefnyddio taliadau iniongyrchol.



Efallai y bydd pobl angen help hefyd gan **sefydliad cymorth** neu **eiriolwr.**



Ystyr **sefydliad cymorth** ydy sefydliad sy'n eich helpu i reoli eich Taliad Uniongyrchol.



**Eiriolwr** ydy rhywun sy'n siarad drosoch chi. Maen nhw'n eich helpu i ddweud beth rydych chi eisiau a deall eich dewisiadau.

## Ar gyfer beth mae taliadau uniongyrchol ddim yn gallu cael eu defnyddio



Efallai na fydd taliad uniongyrchol GIP yn cynnwys yr holl ofal rydych chi ei angen.



Efallai y bydd rhywfaint o gymorth yn dal i ddod o wasanaethau'r GIG.




Dydy taliadau uniongyrchol **ddim** yn gallu cael eu defnyddio ar gyfer:

- Gwasanaethau meddygon teulu.
- Profion sgrinio.
- Brechlynnau.
- Archwiliadau iechyd, fel archwiliadau clefyd y galon.
- Gwasanaethau brys.
- Llawfeddygaeth.
- Taliadau'r GIG, fel costau deintyddol.



Dydy taliadau **uniongyrchol ddim** yn gallu cael eu defnyddio chwaith i:

- Prynu alcohol neu dybaco.
- Gamblo.
- Talu dyledion.
- Prynu unrhyw beth anghyfreithlon.

## Pan na fydd rhywun yn cael cynnig taliadau uniongyrchol



Efallai na fyddwch chi'n cael taliadau uniongyrchol os ydy eich bwrdd iechyd yn credu nad dyma'r opsiwn cywir i chi.




Mae hyn yn gallu bod oherwydd:

- Dydy e ddim yn iawn ar gyfer eich anghenion.
- Mae'r arian yn gallu cael ei wario mewn ffordd well.



- Ni fyddai'n gweithio cystal â chefnogaeth arall.
- Fyddech chi na'ch **cynrychiolydd** yn gallu rheoli taliadau, hyd yn oed gyda chymorth.



Os nad oes gan rywun y **galluedd**, mae person arall yn rheoli eu taliadau uniongyrchol. Mae'r person yma yn cael ei alw yn **gynrychiolydd**.



Rhaid i'ch bwrdd iechyd esbonio pam eu bod wedi penderfynu peidio â rhoi taliadau uniongyrchol i chi. Rhaid iddyn nhw ddweud wrthych chi yn ysgrifenedig.



Rydych chi neu eich **cynrychiolydd** yn gallu apelio yn erbyn y penderfyniad. Dyma ffordd ffurfiol o ofyn am edrych ar y penderfyniad. Fe fydd y bwrdd iechyd wedyn yn edrych ar y penderfyniad eto.



Mae taliadau uniongyrchol yn gallu cael eu rhoi i oedolion sy'n cael GIP yn eu cartrefi eu hunain.



I gael taliadau uniongyrchol mae'n rhaid i chi:

- Cael y **galluedd** i gytuno, neu
- Cael rhywun sy'n gallu cytuno drosoch chi.




Mae **galluedd** yn meddwl gallu gwneud eich penderfyniadau a'ch dewisiadau eich hun.




Rhaid i'r penderfyniad fod yn iawn i chi a'ch anghenion.



Rhaid i fyrddau iechyd fod yn agored ac yn onest am benderfyniadau i roi taliadau uniongyrchol.



Efallai y byddan nhw'n casglu mwy o wybodaeth cyn penderfynu. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod taliad uniongyrchol yn iawn ac yn ddiogel i chi.

**Mae yna 2 enw ar gyfer pobl sy'n rheoli taliadau uniongyrchol i rywun:**



## Cynrychiolydd

Os nad oes gan rywun y **galluedd**, mae person arall yn rheoli eu taliadau uniongyrchol. Mae'r person yma yn cael ei alw yn **gynrychiolydd**.



## Enwebai

Mae gan rai pobl y **galluedd** ond yn dewis rhywun arall i reoli eu taliadau uniongyrchol. Mae'r person yma yn cael ei alw yn **enwebai**.



Dim ond os ydych chi'n cytuno iddo y mae'n bosibl gwneud taliadau uniongyrchol.



Os nad oes gennych chi y **galluedd**, mae **cynrychiolydd** yn gallu cytuno.



Os nad ydy bwrdd iechyd yn siŵr a oes gennych chi y **galluedd**, mae angen iddyn nhw wirio. Mae hyn yn dilyn **Deddf Galluedd Meddyliol 2005**.

## Galluedd sy’n newid



Mae gan rai pobl **alluedd** ar rai adegau ond nid ar adegau eraill.



Efallai y byddan nhw angen **cynrychiolydd** yn yr amseroedd nad oes ganddyn nhw **alluedd.**



Mae **cynllun gofal ymlaen llaw** yn gallu helpu gyda hyn. Dyma lle mae’r person yn cofnodi penderfyniadau ar gyfer adegau pan nad oes ganddyn nhw **alluedd**.



Efallai y bydd angen iddyn nhw gael gwybodaeth gan bobl sy’n gwybod am eu hanghenion. Er enghraifft, eu tîm gofal cymdeithasol.

## Enwebai ar gyfer pobl â galluedd



Mae gan rai pobl **alluedd** ond yn dewis rhywun arall i reoli eu taliadau uniongyrchol. Mae'r person yma yn cael ei alw yn **enwebai**.



Rhaid i'r **enwebai** ddilyn y rheolau ar ran y person.



Rhaid i'r bwrdd iechyd gytuno bod yr **enwebai** yn addas. Ni ddylid gwahardd yr **enwebai** o'r math yma o rôl.



Mae **enwebai** hefyd yn gallu bod yn berson o sefydliad.




Mae'r person y mae'r taliadau ar ei gyfer yn gallu newid ei **enwebai**. Rhaid iddyn nhw ddweud wrth y bwrdd iechyd yn ysgrifenedig.

## Mwy am gynrychiolwyr ac enwebeion



**Mae cynrychiolydd yn gallu bod yn:**

- Rhiant, aelod o'r teulu neu ffrind.
- Rhywun sydd â rolau wedi eu gosod gan y Ddeddf Galluedd Meddyliol.
- Rhywun wedi eu dewis gan y bwrdd iechyd.



**Rhaid i'ch cynrychiolydd neu eich enwebai:**

- Gweithredu er eich budd gorau.
- Dilyn y cynllun gofal a'r canllaw yma.
- Delio â gwasanaethau ar eich rhan.

# Gwybodaeth, cyngor a chymorth




Mae pobl angen gwybodaeth glir am daliadau uniongyrchol. Efallai y bydd pobl angen cyngor a chymorth hefyd i benderfynu a ddylid cael taliad uniongyrchol.



**Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am:**

- Faint o arian fyddwch chi'n ei gael.
- Sut mae'r swm yn cael ei benderfynu.
- Ar gyfer beth mae'r arian yn gallu a dim yn gallu cael ei ddefnyddio.
- Sut i ddod o hyd i wasanaethau.
- Sut i gyflogi pobl.



Fe ddylai cymorth fod yn hygyrch ac yn hawdd ei ddeall.

# Cynllunio gofal




Mae cynllun gofal yn dangos sut fydd eich anghenion iechyd a llesiant yn cael eu gofalu amdanyn nhw.



Mae hefyd yn cofnodi eich cryfderau a beth sydd yn bwysig i chi.



Fe ddylech chi, eich **cynrychiolydd** neu **enwebai** fod yn rhan o wneud y cynllun.



Rhaid i'r cynllun gofal gynnwys:

- Pa anghenion iechyd fydd y taliad uniongyrchol yn eu cefnogi.
- Pa ganlyniadau sydd yn cael eu disgwyl.
- Pa wasanaethau fydd yn cael eu defnyddio.
- Swm y taliad uniongyrchol.



Efallai y bydd y bwrdd iechyd yn penderfynu na ddylid talu am wasanaeth trwy daliadau uniongyrchol. Er enghraifft, oherwydd nad ydy e'n cytuno bod gwasanaeth yn ddefnyddiol.



Rhaid iddyn nhw esbonio eu rhesymau am hyn. Rydych chi'n gallu gofyn iddyn nhw edrych arno eto.




Rhaid edrych ar gynlluniau gofal yn rheolaidd. Rhaid edrych arnyn nhw hefyd I weld os ydy eich anghenion yn newid.



Fe fydd y cynllun gofal hefyd yn cynnwys risgiau a sut i'w rheoli.

## Cydlynydd gofal



Rhaid i bawb sy'n cael taliad uniongyrchol gael cydlynydd gofal.



Rhaid ysgrifennu eu manylion yn y cynllun gofal.

**Fe fydd y cydlynydd gofal yn:**



- Siarad â chi, eich bwrdd iechyd, ac unrhyw un arall sy’n gwybod am eich gofal.



- Asesu eich anghenion iechyd, nodau a chanlyniadau.

- Edrych I weld bod pawb yn cytuno â’r cynllun gofal.



- Trefnu adolygiadau.




Fe fydd costau'r gwasanaethau yn y cynllun gofal yn cael eu talu gan daliadau uniongyrchol.



Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud yn siŵr bod digon o arian i dalu amdanyn nhw.



Rhaid i bobl gael y taliadau ymlaen llaw. Ni ddylai neb dalu eu hunain yn gyntaf ac yna cael yr arian yn ôl yn ddiweddarach.



Os ydych chi’n sefydlu cyfrif banc ar gyfer eich taliadau uniongyrchol i fynd i mewn iddo, fe fydd angen i chi gadw cofnodion o’r arian a’r gwariant. Mae hyn yn cynnwys datganiadau banc a derbynebau.



Weithiau mae sefydliad arall yn gallu trin yr arian a threfnu’r taliadau os ydych chi eisiau. Fe fyddan nhw wedyn yn cadw cofnodion.

## Prynu gwasanaethau



Mae taliadau uniongyrchol yn rhoi mwy o reolaeth i chi dros eich gofal a'ch cefnogaeth. Ond maen nhw hefyd yn dod gyda phethau mae'n rhaid i chi eu gwneud.




Rhaid gwario'r arian yn unig fel sydd wedi cael ei ysgrifennu yn eich cynllun gofal.



Efallai y byddwch chi hefyd yn dod yn gyflogwr i'r bobl rydych chi'n eu llogi.




Rydych chi'n defnyddio taliadau uniongyrchol i brynu gwasanaethau.



Efallai y byddech chi yn:

- Cyflogi pobl yn uniongyrchol.
- Talu sefydliad i ddarparu cymorth.




Mae yna lawer o reolau am gyflogi staff. Rhaid rhoi cefnogaeth i bobl ddeall y rheolau yma. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gyflogau, treth, a rheolau salwch.



Os nad ydych chi'n siŵr am y rheolau ar gyfer cyflogi staff, rydych chi'n gallu gofyn i'r bwrdd iechyd am gyngor a chymorth.




Efallai y bydd y bwrdd iechyd yn eich cysylltu â gwasanaethau cymorth a chyngor lleol.

## Sefydliadau cymorth a chyfrifon sydd yn cael eu rheoli



Cyfrif sydd yn cael ei reoli ydy pan fydd sefydliad neu wasanaeth cymorth yn dal yr arian taliad uniongyrchol i chi.



Maen nhw'n cadw'r arian yn ddiogel mewn cyfrif ar wahân, ond rydych chi'n dal i ddewis sut mae'n cael ei ddefnyddio.



Chi neu'ch **enwebai** sy'n penderfynu sut i'w wario. Rhaid i hyn ddilyn eich cynllun gofal.

## Talu staff sydd yn byw yn yr un tŷ



Dim ond i gyflogi aelodau o'r teulu sy'n byw yn yr un tŷ mae taliadau uniongyrchol, yn gallu cael ei roi. Pan fydd y bwrdd iechyd yn cytuno mai dyma'r opsiwn gorau ar gyfer eich gofal.



Weithiau mae teulu neu ffrindiau yn gallu cael eu talu. Ond mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gytuno mai dyma'r opsiwn gorau.



Mae cynorthwyydd personol yn gallu byw gyda chi.



Mae angen i bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol feddwl am ddiogelwch wrth gyflogi staff.

**Fe fydd angen i chi edrych ar bethau fel:**



- Hawl y person i weithio yn y DU.
- Eu hyfforddiant, eu sgiliau a'u profiad.




- Geirda – mae'r rhain yn ddatganiadau ysgrifenedig gan eu cyn-gyflogwyr.



- Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Mae hyn yn cael ei alw yn wiriad DBS. Mae'n edrych I weld os oes gan rywun gofnod troseddol.




Fe ddylai'r bwrdd iechyd esbonio pam mae'r gwiriadau yma yn bwysig ar gyfer gwasanaethau gofal.

## Yswiriant



Rhaid i'r bwrdd iechyd edrych i weld bod staff sydd yn cael eu cyflogi yun gallu gwneud y gwaith yn ddiogel.



Efallai y bydd angen yswiriant rhag ofn bod unrhyw beth yn mynd o'i le. Fe ddylai'r bwrdd iechyd siarad â chi am yswiriant a dylai bob amser ei gynnwys yng nghostau'r taliad uniongyrchol.



Ar gyfer rhai tasgau, rhaid i staff gael eu hyfforddi gan rywun o'r GIG sydd yn cytuno eu bod yn gallu cyflawni'r dasg yn ddiogel.



Mae taliadau yn gallku mynd i fyny, mynd i lawr, neu stopio os ydy'r anghenion yn newid. Rhaid dweud wrthych chi cyn i hyn ddigwydd.




Ni ddylai taliadau uniongyrchol fel arfer orfod stopio os ydych chi'n mynd i'r ysbyty am gyfnod byr. ,Mae cynllunio ymlaen llaw yn gallu helpu rhag ofn i hyn ddigwydd.



Mae newidiadau eraill yn gallu digwydd. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n rhoi'r gorau i fod angen rhai mathau o gefnogaeth. Neu efallai bod unrhyw un rydych chi'n ei gyflogi yn gallu cymryd gwyliau blynyddol.



Mae taliadau uniongyrchol yn gallu stopio os:

- Mae person â **galluedd** yn stopio cytuno i gael taliadau.
- Mae person yn cael ei **alluedd** yn ôl ac yn newid ei benderfyniad am daliadau uniongyrchol.
- Mae **cynrychiolydd** neu **enwebai** yn rhoi'r gorau i gytuno i dderbyn taliadau a does neb arall wedi'i drefnu.
- Does dim angen yr un lefel o ofal arnoch chi ddim mwy.
- Mae adolygiad cynllun gofal yn newid y penderfyniad.
- Rydych chi'n stopio cytuno bod rhywun arall yn gallu rheoli'r taliadau uniongyrchol.
- Dydy'r arian ddim wedi cael ei ddefnyddio yn y ffordd iawn. Mae'r bwrdd iechyd yn gallu gofyn am dalu'r arian yn ôl.



Os nad ydych chi'n cytuno â stopio taliadau uniongyrchol, rydych chi'n gallu apelio.

# Edrych ar, ac adolygu taliadau uniongyrchol



Rhaid i'r cydlynydd gofal siarad gyda chi i weld sut mae taliadau uniongyrchol yn gweithio.



Rhaid cael adolygiad o fewn 3 mis ar ôl dechrau.




Ar ôl hynny, rhaid i adolygiadau ddigwydd o leiaf unwaith y flwyddyn.




Rydych chi'n gallu gwneud cwyn os nad ydych chi'n hapus. Rydych chi'n gallu defnyddio gweithdrefn gwyno eich bwrdd iechyd.

Rydych chi hefyd yn gallu cysylltu â Llais am gymorth am ddim. Mae Llais yn helpu gyda chwynion am iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd yn gallu edrych ar gwynion.

Os ydy cynorthwyydd personol yn achosi niwed, efallai y bydd angen eu cyfeirio at y DBS. Mae mwy o wybodaeth am hynny yma.

### Cynrychiolydd

Os nad oes gan rywun alluedd, mae person arall yn rheoli eu taliadau uniongyrchol. Mae'r person yma yn cael ei alw yn gynrychiolydd.

### Eiriolwr

Eiriolwr ydy rhywun sy'n siarad drosoch chi. Maen nhw'n eich helpu i ddweud beth rydych chi  eisiau a deall eich dewisiadau.

### Enwebai

Mae gan rai pobl alluedd ond yn dewis rhywun arall i reoli eu taliadau uniongyrchol. Mae'r person yma yn cael ei alw yn enwebai.

### Galluedd

Mae galluedd yn meddwl gallu gwneud penderfyniadau a dewisiadau.

### Sefydliad cymorth

Ystyr sefydliad cymorth ydy sefydliad sy'n eich helpu i reoli eich Taliad Uniongyrchol.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247